

CYFARFOD	Pwyllgor Iaith
DYDDIAD	20/6/22
TEITL	Adroddiad Adran Oedolion, Iechyd a Llesiant
PWRPAS	Cyflwyno gwybodaeth am gyfraniad yr Adran i'r Polisi Iaith

1. CEFNDIR

- 1.1 Mae'r adroddiad hwn wedi ei baratoi er mwyn cyflwyno gwybodaeth i'r Pwyllgor Iaith am gyfraniad yr Adran Oedolion Iechyd a Llesiant i'r Polisi Iaith.
- 1.2 Mae Polisi Iaith y Cyngor wedi ei wreiddio yn holl waith yr Adran a byddwn yn amlygu yn yr adroddiad hwn y cyfleoedd sydd ar gael i wella'r ddarpariaeth i'n trigolion gan gydnabod hefyd yr heriau sy'n wynebu'r maes.
- 1.3 Yn 2016 lanswyd y 'Fframwaith Strategol Olynol ar gyfer Gwasanaethau Cymraeg mewn Iechyd, Gwasanaethau Cymdeithasol a Gofal Cymdeithasol (Mwy na Geiriau)'. Mae'r Fframwaith yn gosod disgwyliadau ar gynghorau lleol a byrddau iechyd i ddarparu gwasanaethau drwy gyfrwng y Gymraeg ac i wneud "Cynnig Rhagweithiol" i bawb. Mae gallu darparu'r "Cynnig Rhagweithiol" yn golygu na ddylai unrhyw un yng Nghymru orfod gwneud cais am gael gwasanaeth yn Gymraeg gan y dylai fod gwasanaeth yn Gymraeg ar gael iddynt heb orfod gofyn amdano.
- 1.4 Mae'r fframwaith yn cefnogi Polisi Iaith y Cyngor ac rydym fel Cyngor wedi ymrwmo i Mwy na Geiriau o'r cychwyn cyntaf ers pan ei gyhoeddwyd ym mlwyddyn 2012 ac wedi croesawu egwyddorion y Fframwaith Strategol Olynol a gyhoeddwyd ym mlwyddyn 2016. Mantais amlwg y fframwaith yw ei fod yn fframwaith cenedlaethol sy'n sicrhau cysondeb ar draws y wlad, ond hefyd ar draws sefydliadau maes. Mae swyddogion y Cyngor wedi cyfrannu'n gyson i fforwm Rhanbarthol sydd wedi cael ei sefydlu gan Morwena Edwards, Cyfarwyddwr Corfforaethol Cyngor Gwynedd ar gyfer cydweithio a rhannu ymarfer da. Yn dilyn newid yn strwythurau staffio'r Cyngor a swyddi perthnasol yn yr Adran, bydd angen ail edrych ar gynrychiolaeth yr Adran a'r Cyngor yn y fforwm erbyn y fforwm nesaf.

2. YMATEB I GWESTIYNAU'R PWYLLGOR

Mater yr hoffai'r aelodau ei drafod:	Cwestiwn
<p><u>Hybu a hyrwyddo</u></p> <p>Sut ydym ni'n mynd y tu hwnt i ddarparu yn ddwyieithog i fod yn cynyddu'r cyfleoedd i bobl ddefnyddio'r Gymraeg yn y gymuned, i gyfrannu at y targed cenedlaethol o greu Miliwn o siaradwyr, ac at y nod Llesiant o sicrhau bod pobl Gwynedd yn "Cael byw mewn cymdeithas naturiol Gymraeg"?</p> <p>Mae Cynllun Hybu'r Gymraeg yng Ngwynedd i'w weld yma: https://www.gwynedd.llyw.cymru/cy/Cyngor/Dogfennau-Cyngor/Strategaethau-a-pholisiau/Cynllun-iaith/Cynllun-Hybu'r-Gymraeg-yng-Ngwynedd-2018-2023.pdf</p> <p>Mae'n gosod blaenoriaethau ar gyfer hybu'r Gymraeg mewn pum maes:</p> <ol style="list-style-type: none"> 1. Iaith y teulu, 2. Iaith dysgu, 3. Iaith gwaith a gwasanaeth, 4. Iaith y gymuned 5. Ymchwil a Thechnoleg 	<p>1. Allwch chi amlygu unrhyw brosiectau o fewn eich adran sydd yn cyfrannu tuag at un o flaenoriaethau strategaeth iaith y Cyngor, sef Cynllun Hybu'r Gymraeg yng Ngwynedd?</p> <p>Mae'n ofynnol i'r Adran Oedolion wneud cynnig rhagweithiol i bawb sy'n derbyn gwasanaeth, gan sicrhau fod unigolion yn derbyn Gwasanaeth yn yr iaith o'u dewis heb orfod gofyn. Mae hyn yn egwyddor sy'n greiddiol i waith Dydd i Ddydd yr Adran.</p> <p>Dementia</p> <p>Mae'n hollbwysig fod Oedolion sydd â dementia yn cael eu cefnogi yn eu Hiaith ddewisol, ac mae ymchwil sylweddol wedi profi'r effaith ar lesiant unigolion. Wrth ddatblygu unedau dementia yng Nghartrefi Mewnol y Cyngor, hyfforddi staff i fod yn arbenigwyr dementia, a pharhau i gynnig sesiynau Dementia Go yn y Gymraeg ar draws y Sir, mae hyn yn sicrhau gwasanaeth Cymraeg o safon i unigolion sydd â dementia yn eu cymunedau lleol. Mae'n hanfodol wrth i ni ddatblygu opsiynau technoleg/teleofal i'r dyfodol fod opsiynau Cymraeg ar gael, a bydd hyn yn cael sylw fel rhan o'r Prosiect Teleofal yn ystod 2022/23.</p> <p>Achosion All-Sirol</p> <p>Yn hanesyddol, mae unigolion o Wynedd wedi derbyn gwasanaeth tu allan i Wynedd am amryw resymau, er enghraifft fod y gofal arbenigol sydd ei angen ddim ar gael yng Ngwynedd. Mae hyn yn wir yn enwedig yn y Gwasanaeth Anableddau Dysgu. Mae gwaith yn mynd yn ei flaen i adnabod yr unigolion sydd gennym yn derbyn gwasanaeth tu allan i Wynedd, a thrafod y posibilrwydd o ddychwelyd nôl i Wynedd. Mae esiamplau lle mae unigolion yn awyddus i ddychwelyd yn ôl i Wynedd i fyw, i fod yn agosach i Deulu ac i fod yn gweithio a derbyn Gwasanaeth yn y Gymraeg. Bydd hyn yn flaenoriaeth dros y cyfnod o'n blaenau, i sicrhau fod pawb sydd eisiau byw mewn cymdeithas naturiol Cymraeg yn cael y cyfle hynny.</p>
<p><u>Allanol gwaith a gosod cytundebau trydydd parti</u></p>	<p>2. Os yw'r adran yn gosod gwaith yn allanol ar gytundeb, allwch chi gyfeirio at unrhyw arfer da, naill ai wrth osod amodau neu wrth fonitro i sicrhau cydymffurfiaeth efo amodau ieithyddol?</p>

<p>Sut ydym ni'n sicrhau bod safon y gwasanaeth dwyieithog yn cael ei gynnal wrth allanoli a gosod cytundebau?</p>	<p><u>Prosiect Gofal Cartref</u> Dros y misoedd diwethaf mae gwaith yn mynd rhagddo i ail edrych ar y ddarpariaeth Gofal Cartref yng Ngwynedd. Bydd darparwyr yn gweithredu mewn dalgylch daearyddol ac yn gweithredu yn fwy hyblyg yn unol ag anghenion Oedolion a'u gofalmwyr. Fel rhan o'r prosiect, rydym fel Adran wedi gallu gosod amodau ieithyddol penodol er mwyn sicrhau fod yr Iaith Gymraeg a gallu gwneud y cynnig rhyngweithiol yn elfen graidd o'r cytundeb newydd gyda Darparwyr. Mae hyn wedi bod yn elfen allweddol wrth ddyfarnu contractau newydd, a bydd yn parhau i fod yn elfen allweddol wrth i'r model newydd gael ei weithredu ac wrth i ni fonitro cytundebau.</p> <p><u>Hyfforddiant</u> Yn aml mae elfennau o hyfforddiant Gwaith Cymdeithasol yn cael ei allanoli, yn enwedig pan fo'r hyfforddiant yn un mewn maes arbenigol. Yn hanesyddol mae hyfforddiant arbenigol yn y Gymraeg wedi bod yn fwch, ond mae ymdrech yr Adran dros y blynyddoedd diwethaf yn golygu fod hyfforddiant yn y Gymraeg yn rhan annatod o gontractau hyfforddiant bellach. Mae trafodaethau yn parhau gyda phartneriaid megis Prifysgol Bangor er mwyn darparu cyfleoedd hyfforddiant arbenigol, pwrpasol yn y Gymraeg.</p>
<p><u>Gweithredu'n ddwyieithog</u></p> <p>Sut ydym ni'n llwyddo wrth weithredu ar ofynion y Polisi Iaith a Safonau'r Gymraeg?</p>	<p><i>3. Oes yna unrhyw rwystrau i'ch gallu fel adran i gynnig gwasanaeth llawn yn y Gymraeg?</i></p> <p>Gall hyn fod ar draws yr adran neu mewn gwasanaethau penodol. e.e.</p> <ul style="list-style-type: none"> • problemau recriwtio neu ddiffyg sgiliau staff • Gweithio mewn maes sydd yn cael ei ystyried yn ddiwydiant "Saesneg" ei natur (h.y. dylanwadau allanol) • Cydweithio gyda chyrff ac asiantaethau allanol sydd ddim yn gweithredu yn ddwyieithog <p><u>Recriwtio</u> Mae recriwtio yn parhau i fod yn un o'r prif rwystrau i'n galluogi i gynnig Gwasanaethau yn llawn yn y Gymraeg. Mae recriwtio i'r maes gofal yn broblem genedlaethol, ac mae'r broblem yn cael ei amlygu mewn rhai ardaloedd penodol o Wynedd yn fwy nag eraill. Pan fo'r Gwasanaeth yn ceisio pob ffordd i recriwtio i swyddi gofal rheng flaen ac yn methu, yn aml iawn mae rhaid cyfaddawdu er mwyn gallu cynnig unrhyw fath o wasanaeth. Mae cefnogaeth yn cael ei roi i staff di-gymraeg ac mae esiamplau o staff di-gymraeg yn dysgu ac yn dod yn aelodau gwerthfawr o'r Adran gyda chefnogaeth. Mae'r Adran wedi cychwyn recriwtio yn lleol (e.e. recriwtio yn ardal Maesgeirchen ar gyfer Cartref Plas</p>

	<p>Hedd), ac mae hyn wedi galluogi rheolwyr i drafod anghenion iaith ac opsiynau gydag unigolion na fyddai wedi dod i gyswllt yn flaenorol o bosib.</p> <p><u>Cydweithio gyda Phartneriaid</u></p> <p>Mae'r Adran yn cydweithio yn agos gyda'r Bwrdd Iechyd, ac mae'r Tîm Iechyd Meddwl er enghraifft yn dîm integredig wedi ei lleoli gyda'r Bwrdd Iechyd yn Uned Hergest, Bangor ac yn Ysbyty Alltwen. Mae pob ymdrech yn cael ei wneud i ddylanwadu ar bartneriaid ac i gydweithio er mwyn hybu'r Gymraeg, ond mae gwaith y timau yn aml yn adweithiol. Pan mae angen ymateb ar frys i faterion ar y cyd gyda'n partneriaid, e.e. materion diogelu, yn aml mae hyn yn rhwystr.</p>
<p><u>Datblygu cyfleoedd newydd</u></p>	<p><i>4. Oes gennych chi syniadau am ffyrdd newydd y gallem ni fod yn hybu'r Gymraeg o fewn cymunedau'r sir – naill ai yn eich gwasanaethau eich hun neu drwy gydweithio gydag eraill?</i></p> <p><u>Prosiect Gwydnwch Cymunedol</u></p> <p>Bydd prosiect yn cael ei sefydlu yn ystod 2022/23 drwy arian grant fydd yn edrych ar sefydlu hybiau mewn gwahanol gymunedau ar draws y Sir. Y bwriad ydi cynnig Gwasanaethau ataliol o'r hybiau, a drwy gynnig gwasanaeth a chyfleoedd i unigolion yn lleol yn eu cymunedau, bydd hyn yn gyfle gwerthfawr i hybu'r Gymraeg, yn enwedig mewn rhai o'r cymunedau lle mae'r niferoedd o siaradwyr Cymraeg yn is. Fyddai modd cydweithio i gynnig gwersi Cymraeg i Oedolion yn eu cymunedau lleol er enghraifft?</p> <p><u>App 'Insight'</u></p> <p>Mae'r tîm Llwybrau Llesiant o fewn y Gwasanaeth Anabledd Dysgu yn cynnig cyfleoedd cymdeithasol, hyfforddiant, gwaith ayyb i unigolion gydag Anableddau Dysgu. Mae dros 150 o unigolion yng Ngwynedd wedi derbyn gwasanaeth gan y tîm. Drwy ymuno gyda app 'Insight' mae'r tîm wedi gallu agor y cyfleoedd i fyny i weddill Cymru, lle gall unigolion gydag Anableddau Dysgu ar draws Cymru ymuno gyda sesiynau'r tîm yn rhithiol. Does dim llawer o gyfleoedd Cymraeg ar yr ap, ac mae'r tîm Llwybrau Llesiant yn flaenllaw o ran cynnig sesiynau Cymraeg ar yr ap. Mae esiamplau o unigolion ar draws Cymru yn ymuno gyda sesiynau'r tîm gan eu bod yn cael eu cynnal yn y Gymraeg, ac unigolion yn gwneud ffrindiau ar draws Cymru. Mae hyn yn rhywbeth mae'r tîm yn bwriadu ehangu arno dros y flwyddyn nesaf.</p>

Graddedigion/Hyfforddai

Mae ymdrech benodol yn cael ei wneud i dargedu hyfforddeion a graddedigion ar gyfer swyddi sydd wedi bod yn anodd penodi iddyn nhw yn hanesyddol. Drwy gynnig cyrsiau yn y Gymraeg ar y cyd gyda Phrifysgol Bangor, e.e. Therapi Galwedigaethol a Gwaith Cymdeithasol, mae modd ceisio denu graddedigion nôl i'r Sir. Yn ogystal â'r hyfforddai Therapi Galwedigaethol a Gwaith Cymdeithasol, mae'r Adran wedi penodi tri hyfforddai Cymraeg Arwain a Rheoli dros y blynyddoedd diwethaf, ac mae'r tri wedi dychwelyd i'r ardal er mwyn gweithio yng Ngwynedd. Y gobaith yw tyfu rheolwyr ac arweinwyr y dyfodol o fewn yr Adran wrth hybu'r Gymraeg.

